

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 1 Ieg Tachwedd, 2019**, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)

Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir

51. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

52. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan unrhyw aelod ddiddordeb yn yr eitemau oedd i'w trafod.

53. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 14eg Hydref, 2019, (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Ifor Owen).

MATERION YN CODI

(1) Eitem 45 Cadarnhau Cofnodion – (Is-gymal Materion Ffyrdd Llwybrau – Eglwys Santes Mair, Bryncroes

Cyflwynwyd adroddiad i e-bost gael ei dderbyn ar 23ain Hydref, 2019, oddi wrth Martin Daniel Williams, Cymhorthydd Technegol yng Nghyngor Gwynedd, ei fod wedi gofyn i'r Contractwyr symud ymlaen efo'r gwaith o osod yr arwydd 'Eglwys Santes Mair.' Aeth ymlaen i ddweud "fel arfer mae'r math yma o waith yn cymryd oddeutu chwe wythnos. O ran tegwch, mi wnai ofyn iddyn nhw i roi blaenoriaeth ar y gwaith."

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

(2) Eitem 45 Cadarnhau Cofnodion – (Is-gymal Eitem 40 – Diffibliwr yn Wynnstay)

Adroddodd y Cadeirydd iddo siarad ag un a staff yn Storfa Wynnstay ym Mhenygroeslon a chael ar ddeall mai oddeutu £23 fyddai cost yr arwydd i ddynodi fod diffibliwr ar yr adeilad. Yn unol â'r hawl roddwyd i'r Cadeirydd mewn cyfarfod blaenorol archebwyd yr arwydd a derbyniwyd caniatad i'w roi i fyny ar yr adeilad ym Mhenygroeslon.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gyda diolch.

(3)Eitem 47 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Cyflwynwyd atebiad Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd i gwynion anfonwyd i'w sylw ym mis Hydref fel a ganlyn:

“Bwthyn Gwyn, Bryncroes –
Mae'r mater yma wedi ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Dwr ac Amgylchedd, Ymgynghoriaeth Gwynedd a maent yn archwilio'r safle.

Diffyg Gwelediad – Siop y Bont, Llangwinnadl
Cyfeiriaf y mater hwn i'r Uned Traffig a Phrosiectau, Adran Amgylchedd, gan mai gwaith mân welliant fuasai'n gwella gwelediad yn y lleoliad yma.

Mae'r Archwiliwr Priffyrdd wedi trafod gyda pherchennog y tir ac mae wedi cytuno i wneud y gwaith o docio'r goeden yn ôl, ac mae'r Uned Traffig a Phrosiectau am osod mwy o arwyddion bob ochr i'r bont.”

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

(3) Archwiliad y Cyfrifon i 3 Iain Mawrth, 2019

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc yn dilyn canlyniad yr archwiliad gan y BDO, fel a ganlyn:

Tudalen 4

Ailddatgan ffigyrau

1.Cyfeirio maent yma am £75 (siec 200624) – roedd hyn wedi ei ddangos yn hollol eglur ar y fantolen baratoais iddynt.

Ar 10fed Mehefin, 2019, ysgrifennais at Bethan Haf Beaston, Archwilydd Mewnol, Cyngor Gwynedd, yn tynnu sylw nad oedd y ffigyrau yn cydfynd a ffurflen flynyddol 2017/18 a hynny am fod y £75 yma wedi ychwangeu i'r ffigwr ym mocs 6 “cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff ...”

Atebiad Manon ar 10fed Mehefin, 2019, oedd:

“Wrth i gysoni'r ffigyrau daeth i'r amlwg bod taliad o £75 (rhif siec 200624) heb ei gynnwys yng nghyfanswm taliadau ar y ffurflen flynyddol ar gyfer 2017/18 felly mi wnes i ailddatgan y cyfrifon h.y. ychwanegu'r £75 i'r ffigwr yng ngholofn 6, ac o ganlyniad mae wedi effeithio ar y ffigyrau yng ngholofnau 7, 9, ac 11.”

Nododd yr Archwilydd Mewnol hyn ar y datganiadau cyfrifon i'r BDO.

2.Costau cyflog wedi eu gor-adrodd

Eto anfonais e-bost at yr Archwilydd Mewnol yn tynnu ei sylw at hyn:

“hefyd o berthynas i gostau staff – yr union run cyflog a'r flwyddyn diwethaf rwyf wedi ei dderbyn sef £1,863. Pam fod yn dangos £1874?

Atebiad Manon ar 10fed Mehefin, 2019:

“O ran y costau staff, mae'r arweiniad rydym wedi derbyn blwyddyn yma yn wahanol i llynedd, rydym nawr yn cynnwys y canlynol fel costau staff, cyflog, taliadau TWE/YG, taliadau pensiwn, costau teithio, costau parcio a chostau aelodaeth (SLCC).

Rwyf wedi cynnwys swm o £10.80 costau teithio yng nghostau staff ar gyfer 2018/19 a dyma yw'r gwahaniaeth.”

Atebais drachefn ar yr un diwrnod:

“O ran y £10.80, costau'r Cynghorydd Glyn Roberts oedd hwn am fynychu cyfarfod o Un Llais Cymru. A yw hyn yn golygu felly fod Cynghorydd yn dod i fewn fel costau staff.”

A dyma atebiad Manon i hyn ar yr un diwrnod:

“Dwi'n amau fy mod wedi gwneud camgymeriad gyda'r £10.80 os yw'n gostau teithio un o'r Cynghorwyr, dylai'r costau staff gynnwys costau sy'n berthnasol i staff yn unig ac felly costau teithio staff yn unig. Ond gan mai £10 yw hyn nid wyf yn credu y byddent yn codi'r mater ymhellach gyda chi.”

Credaf nad wyf fi ar fai ar hyn gan fod y wybodaeth i'r Archwilydd Mewnol yn glir.

Tudalen 5

1. Paratoi'r datganiadau cyfrifo

Pwynt wedi ei dderbyn ynglyn ag annibyniaeth, ond 'roedd John Roberts yno i roi help llaw petai angen!

2. Cofrestr Asedau

Templed wedi cael ei ddangos noson y Cyngor i'r aelodau.

Adroddodd y Cadeirydd ymhellach iddo archwilio'r dogfennau Rheoliadau Ariannol ac Asesiad Risg a nododd bwyntiau oedd angen eu newid yn ei dyb ef. Addawodd y Clarc y byddai'n paratoi fersiwn newydd o'r ddwy ddogfen i'r Cyngor nesaf neu i Gyngor mis lonawr.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiadau.

54. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y cais a ganlyn:

Cais C19/0970/32/LL – tynnu amod 3 ar ganiatad cynllunio C19/0641/32/LL er caniatáu i'r adeilad newydd gael ei ddefnyddio fel modurdy masnachol arwahan i'r modurdy presennol ar y safle – Saith Bont Garage, Botwnnog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

55. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd anfon y materion a ganlyn at y Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd:

1. Pont Felin Ganol, Sarn – mae'r bont wedi dechrau gogwyddo – gofyn iddynt ei harwchwilio rhag ofn damwain.

2. Y gwteri i lawr allt Ty'n Coed am Felin Ganol, Sarn, wedi cau ac o ganlyniad y dwr yn llifo i lawr y ffordd.
3. Mae dwr yn sefyll o flaen Ty Mawr Capel, Bryncroes, ac yn peri trafferth i bobl sydd yn cerdded.
4. Y gwteri i lawr o Graig Ewig am Fotwnnog wedi cau ac o'r herwydd y dwr yn rhedeg ar y wyneb.
5. Y difrod wneir pan mae'n bwrw'n drwm wrth i ddwr lifo i lawr oddi wrth Ty Newydd, Sarn ac Allt Mellteyrn, Sarn, ac yn troi i fewn i'r Neuadd. Mae'r holl ddwr yn cario baw a mwd i faes parcio'r Neuadd ac yn creu difrod.
6. Dwr yn sefyll ar y ffordd ger Tanyffordd, Bryncroes.
7. Mwd ar y ffordd o Saithbont a heibio Trewen, Botwnnog yn gallu bod yn berygl i'r cyhoedd.
8. Cwyn gan Jeremy Hillier, Swyn y Nant, Sarn ynglyn a'r dwr sy'n llifo at ei eiddo.

Yn y cyswllt hwn, cyfeiriwyd at faterion anfonwyd gan Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, at y Peiriannydd Rhanabrthol, yn dilyn y llifogydd diweddar, sef Allt Coch y Moel (ger Capel Tyddyn, Bryncroes), Cefn Gwyfwch (ger Lon) Botwnnog a ger Thy'r Ysgol ym Motwnnog.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a chefnogi sylwadau'r Cynghorydd Sir.

56. **MATERION IECHYD**

Ni chodwyd unrhyw fater i'w drafod.

57. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Cyngor Gwynedd – archwiliad mewnol	£ 162.00
J.A. Pozzi – barbio'r Comin a llwybrau a.y.	£ 1,350.00
J.A. Pozzi – barbio'r Fynwent (y taliad yma o gyfrif y Fynwent)	£ 672.00

58. **PANEL ANNIBYNOL CYMRU AR GYDYNABYDDIAETH ARIANNOL**

Nodwyd fod yr adroddiad blynyddol uchod i law ac fod croeso i unrhyw aelod gael golwg arni.

59. **DIFFYG GWASANAETH DIBYNADWY**

Penderfynwyd anfon at yr Awdurdod perthnasol yn tynnu sylw at y diffyg gwasanaeth a dderbynir gan nifer o drigolion yr ardal pan yn defnyddio'r ffon symudol a'r wefan.